

Thank you for your invitation to provide evidence in follow up to the Committee's 2022 report.

To: Equality and Social
Justice Committee

By email only

Date: 5th February 2024

***Cymraeg isod**

The commitment in the Co-operation Agreement to expand childcare provision is welcome. However, the pace of the rollout, and differences between the policy at a UK Government level, which has obtained more media coverage and public awareness, is causing some issues for families.

The 2022-23 annual report on the Co-operation Agreement states that "We have.....[p]rogressed the expansion of free childcare to all two-year olds, with a particular focus on providing and strengthening Welsh-medium childcare. We are rolling out delivery of the policy via the excellent Flying Start programme." This gives the impression that this now applies to all two-year olds.

We've had a small amount of enquiries on this particular point. There is a lack of clarity in following areas:

1. Whether or not the extension plans announced in England are replicated here in Wales;
2. Whether or not the funding consequential flowing from the plans in England is being invested into the sector, noting the Deputy Minister's comments around pressures on the childcare sector infrastructure preventing a faster roll out; and
3. The coverage of the current Flying Start offer.

On the latter point, families have reported confusion over the Flying Start offer. Settings have been encouraging families to explore their eligibility. Settings themselves have been encouraged to push forward with the Flying Start provision. Whilst it is welcome to hear that efforts are being made to publicise existing entitlements, the lack of universal provision and slow pace of expansion is effectively causing frustration and uncertainty for families.



Families are being told that their postcodes are now coming within the eligibility, but finding when they explore this further that it still isn't their full postcode and in fact, many remain ineligible for the support at this time.

Families are unable to plan their childcare needs around an offer that does not have a clear roll out plan on which to base any assumptions.

In addition, families may remain sceptical and/or may not seek to take up the eligibility when it *does* extend to their particular address, if their experiences at this stage are frustrating and off-putting.

We are also aware of geographical differences between local authorities in how they apply their three and four year olds childcare offer criteria. One parent contacted us in relation to Welsh Medium education; they live on the border between two different local authority areas, with the nearest Welsh medium school to their home being just across the county border. Their home local authority admits learners to school from the term that they turn four, whereas the other requires learners to wait until the term after they turn four. As their child would have been offered a school place if they were attending a school in their home local authority area, the childcare offer was withdrawn despite the fact that the child was not eligible to take up a full time school place that term. The mother was on maternity leave at this time and this caused additional financial pressures, somewhat unnecessarily given that the family were not, and could not, be 'double claiming'. The family have since advised that they have moved house into the local authority area where the school is located.

This situation particularly highlights a lack of congruence in local authority policies under the same Welsh Government childcare offer scheme, and a particular pressure in respect of Welsh Medium education. Whilst this family have been able to maintain the Welsh medium education setting for their child, there was a choice that they had to make at this stage and this presents additional barriers to the Government's aims in respect of both increasing and maintaining parental employment and the Cymraeg 2050 policy.

We have not done any particular proactive work in this area since the last report however, so this is the extent of updated information that we currently hold. Nevertheless we hope that this is useful to the Committee in their follow up deliberations, and would be happy to explore this further with Members as requested.

Rachel Thomas, Head of Policy and Public Affairs, Children's Commissioner for Wales



Ymateb Cymraeg

Diolch am eich gwahoddiad i ddarparu tystiolaeth yn dilyn adroddiad y Pwyllgor yn 2022.

Croesewir yr ymrwymiad yn y Cytundeb Cydweithio i ehangu darpariaeth gofal plant. Fodd bynnag, mae cyflymder y broses o gyflwyno'r ddarpariaeth, a gwahaniaethau rhwng y polisi ar lefel Llywodraeth y DU, sydd wedi cael mwy o sylw yn y cyfryngau ac ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, yn achosi rhai problemau i deuluoedd.

Mae adroddiad blynyddol 2022-23 ar y Cytundeb Cydweithio yn nodi: "Rydym wedi ... [g]weithio i ehangu gofal plant am ddim i bob plentyn dwyflwydd oed gan ganolbwyntio'n benodol ar ddarparu ac atgyfnerthu gofal plant drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym yn cyflwyno'r polisi drwy'r rhaglen ragorol, Dechrau'n Deg." Mae hyn yn rhoi'r argraff mae hyn bellach yn berthnasol i bob plentyn dwy oed.

Rydym wedi cael ychydig bach o ymholiadau yn ymwneud â'r pwynt penodol hwn. Mae yna ddiffyg eglurder yn y meysydd canlynol:

1. P'un a yw'r cynlluniau i ehangu a gyhoeddwyd yn Lloegr yn cael eu hefelychu yma yng Nghymru ai peidio;
2. P'un a yw'r cyllid canlyniadol sy'n deillio o'r cynlluniau yn Lloegr yn cael ei fuddsoddi yn y sector ai peidio, gan nodi sylwadau'r Dirprwy Weinidog ynghylch pwysau ar seilwaith y sector gofal plant sy'n rhwystro'r broses o gyflwyno'r ddarpariaeth yn gyflymach; a
3. Chwmpas y cynnig Dechrau'n Deg presennol.

O ran y pwynt olaf, mae teuluoedd wedi dweud bod yna ddrwsych ynghylch y cynnig Dechrau'n Deg. Mae lleoliadau wedi bod yn annog teuluoedd i archwilio i weld a ydynt yn gymwys. Mae'r lleoliadau eu hunain wedi cael eu hannog i fwrw ymlaen â darpariaeth Dechrau'n Deg. Er ei bod yn braf clywed bod ymdrechion ar waith i roi cyhoeddusrwydd i hawliau presennol, mae diffyg darpariaeth gyffredinol ac arafwch y broses o ehangu'r ddarpariaeth i bob pwrpas yn achosi rhwystredigaeth ac ansicrwydd i deuluoedd.

Mae teuluoedd yn cael gwybod bod eu codau post bellach yn dod o fewn y chwmpas cymhwystra, ond pan fyddant yn archwilio ymhellach i hyn, maent yn canfod nad yw pob eiddo o fewn y cod post yn gymwys o hyd ac, mewn gwirionedd, mae llawer yn parhau i fod yn anghymwys i gael y cymorth ar hyn o bryd.

Nid yw teuluoedd yn gallu cynllunio eu hanghenion gofal plant ar sail cynnig nad oes ganddo gynllun cyflwyno clir y gellir seilio unrhyw ragdybiaethau arno.

At hynny, os yw eu profiadau ar y cam hwn yn peri rhwystredigaeth ac yn annymunol, efallai y bydd teuluoedd yn parhau i fod yn amheus a/neu efallai na



fyddant yn ceisio manteisio ar y cymhwysra pan *fydd* yn cael ei ehangu i'w cyfeiriad penodol nhw.

Rydym hefyd yn ymwybodol o wahaniaethau daearyddol rhwng awdurdodau lleol o ran y modd y maent yn cymhwyso meini prawf eu cynnig gofal plant i blant tair a phedair oed. Cysylltodd un rhiant â ni mewn perthynas ag addysg cyfrwng Cymraeg; mae'n byw ar y ffin rhwng ardaloedd dau awdurdod lleol gwahanol, ac mae'r ysgol cyfrwng Cymraeg agosaf i'r cartref yr ochr draw i'r ffin sirol. Mae awdurdod lleol y cartref yn derbyn dysgwyr i ysgolion o'r tymor y maent yn cael eu pen-blwydd yn bedair oed, tra bod y llall ei gwneud yn ofynnol i ddysgwyr aros tan y tymor ar ôl iddynt gael eu pen-blwydd yn bedair oed. Gan y byddai'r plentyn wedi cael cynnig lle mewn ysgol pe bai'n mynychu ysgol yn ardal awdurdod lleol y cartref, cafodd y cynnig gofal plant ei dynnu'n ôl er gwaethaf y ffaith nad oedd y plentyn yn gymwys i dderbyn lle llawn-amser mewn ysgol y tymor hwnnw. Roedd y fam ar gyfnod mamolaeth ar y pryd, ac achosodd hyn bwysau ariannol ychwanegol, a hynny braidd yn ddiangen o ystyried nad oedd y teulu yn 'hawlio ddwywaith', ac nad oedd modd iddo wneud hynny. Ers hynny mae'r teulu wedi rhoi gwybod ei fod wedi symud tŷ i ardal yr awdurdod lleol lle y mae'r ysgol wedi'i lleoli.

Mae'r sefyllfa hon yn amlygu'n benodol ddiffyg cysondeb ym mholisiâu awdurdodau lleol o dan yr un cynllun cynnig gofal plant Llywodraeth Cymru, a phwysau arbennig o ran addysg cyfrwng Cymraeg. Er bod y teulu hwn wedi gallu cynnal y lleoliad addysg cyfrwng Cymraeg ar gyfer y plentyn, roedd yn rhaid iddo wneud dewis ar y cam hwn, ac mae hyn yn gosod rhwystrau ychwanegol mewn perthynas â nodau'r Llywodraeth o ran cynyddu a chynnal cyflogaeth i rieni a pholisi Cymraeg 2050.

Nid ydym wedi gwneud unrhyw waith rhagweithiol penodol yn y maes hwn ers yr adroddiad diwethaf fodd bynnag, felly dyma hyd a lled yr wybodaeth ddiweddaraf sydd gennym ar hyn o bryd. Serch hynny, rydym yn gobeithio bod hyn o ddefnydd i'r Pwyllgor yn ei ystyriaethau dilynol, a byddem yn hapus i archwilio hyn ymhellach gyda'r Aelodau yn ôl y gofyn.

Rachel Thomas, Pennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Comisiynydd Plant Cymru

